

<b>Ymyriad</b>	<b>Teithio Cynaliadwy (TC)</b>		<b>Gwyrdd</b>	Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd	
			<b>Ambr</b>	Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyflawnadwy o hyd	
<b>Yn Arwain</b>	Ceri Doyle / Craig Lane	<b>Cyfnod Adrodd</b>	Chwarter 3 2019-20	<b>Coch</b>	Cynnydd ymhell o fwrw'r targed

### Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau

**CAM 1: BGC i ddod yn Hyrwyddwyr Teithio Cynaliadwy:** Siarter Teithio yn cael ei datblygu i sefydliadau BGC ymrwymo iddynt. Mae'r astudiaeth ddichonoldeb o fflyd cerbydau allyriadau isel iawn Gwent (CAII) a gynhaliwyd gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (gan gynnwys y fflyd lwyd) wedi'i chwblhau. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Ansawdd Aer ar waith. Mae ymgynghoriad strategaeth Ansawdd Aer / TC yn gyflawn ac wedi'i fabwysiadu.

**CAM 2: Creu amgylchedd lle rhoddir blaenoriaeth i drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio:** Cafwyd gwerth £5.2 miliwn o gyllid ar gyfer projectau seilwaith teithio llesol ledled y ddinas sydd i gyd ar y trywydd iawn. Cafodd CCA Teithio Cynaliadwy eu datblygu a chânt eu mabwysiadu'n llawn ar ddechrau 2020. Parhau â rhaglenni teithio llesol mewn 3 ysgol. Astudiaeth ddichonoldeb ar logi beiciau ar y stryd wedi'i chwblhau. Comisiynwyd astudiaeth ddilynol. Mae mesurau gorfodi parcio dinesig bellach ar waith. Mae gan Fws Casnewydd gyllid ar gyfer 15 o fysiau ULEV a derbyniwyd cyllid ar gyfer uwchraddio safleoedd bws ledled y ddinas.

**CAM 3: Annog defnyddio ULEV:** Mae astudiaeth pwynt gwefru Gwent gyfan wedi'i chwblhau a nododd leoliadau priodol ar gyfer pwyntiau gwefru. Roedd cais am gyllid yn llwyddiannus wrth osod pwyntiau mewn meysydd parcio ger ardaloedd preswyl. Mae "ECO Stars" yn parhau i gael eu cynnig i weithredwyr fflyd yn y ddinas.

Prif Risgiau / Rhwystrau	Statws	Camau Lliniarol
Peidio â defnyddio'r cyfleoedd sy'n deillio o gomisiwn yr M4.	<b>Uchel</b>	Bydd BGC yn ymgysylltu'n llawn â chomisiwn yr M4 ac yn hyrwyddo ymagwedd Teithio Cynaliadwy.
Diffyg cyllid parhaus ar gyfer ymyriadau teithio llesol mewn ysgolion.	<b>Canolig</b>	Ni fu cais am gyllid i gyflwyno dull o ymdrin ag ysgolion cynradd yn llwyddiannus. Chwilio am ffynonellau cyllid eraill.
Dim ond 2 aelod o'r BGC sydd wedi ymuno ag "ECO Stars".	<b>Canolig</b>	Bydd yr "ECO Stars" yn cyflwyno i'r BGC fis Mawrth 20.

Mesurau Perfformiad Allweddol		Targed	Gwir	CAG
<b>Siarter Teithio Iach</b>	Nifer o sefydliadau sydd wedi ymrwymo	Gorff20: 15	Dd/B	<b>Dd/B</b>
	Gostyngiad yn nifer y teithiau mewn ceir cymudo	Chwe21: i'w drefnu	Dd/B	<b>Dd/B</b>
	Gostyngiad mewn siwrneiau car milltiroedd llwyd	Chwe21: i'w drefnu	Dd/B	<b>Dd/B</b>
<b>Teithio Llesol mewn Ysgolion</b>	Nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni teithio llesol	Maw20: 9	3	<b>Coch</b>
	Cynnydd mewn teithiau teithio llesol	10%	9.4%	<b>Ambr</b>
<b>CAII</b>	Nifer o fysiau ULE ar waith	Rhag20: 15	1	<b>Gwyrdd</b>
	Pwyntiau gwefru newydd wedi'u gosod	Maw20: 20	38	<b>Gwyrdd</b>
<b>Cynllun "ECO Stars"</b>	Nifer y sefydliadau sydd wedi ymrwymo	Maw20: 30	38	<b>Gwyrdd</b>
	% o sefydliadau â gradd 5	Dd/B	9.5%	
	% o sefydliadau â gradd 4		52.4%	
	% o sefydliadau â gradd 3		28.6%	
% o sefydliadau â gradd 2	9.5%			

### Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol

**CAM 1:** Mae ymddiriedolaeth Energy Savgin yn cefnogi gweithgor a sefydlwyd i weithredu argymhellion a dysgu o adolygiad y fflyd. Cynnal astudiaeth gwaelodlin ar gyfer y Siarter Teithio yn debyg i un Caerdydd a chyflwyno'n raddol yng Ngwent erbyn 06/20.

**CAM 2:** Cwblhau projectau a ariennir ar hyn o bryd. Gwneir ceisiadau am ragor o gyllid ar gyfer trafnidiaeth 2020-21. CCA TC i'w mabwysiadu ar ddechrau 2020. Gweithredu cynllun llogi beiciau ar y stryd yn 2020-21 pan fydd fframwaith P-RC wedi'i gyhoeddi. Newidiadau Cam 1 i'r seilwaith yn Ysgol Dewi Sant a'r cyffiniau i'w cwblhau erbyn 03/20. Gwnaed cais am ragor o gyllid ar gyfer Cam 2.

**CAM 3:** Gosod pwyntiau gwefru mewn meysydd parcio ger ardaloedd preswyl erbyn 03/20. Parhau ac ehangu "ECO Stars".